CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 21ain RHAGFYR 2021

PRESENNOL:
Dim Cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd Coronafeirws. (Y Clerc mewn cysylltiad a`r Cadeirydd a`r Cynghorwyr trwy ebost neu ffon.)

YMDDIHEURIADAU:

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.

CAEL COFNODION 16eg TACHWEDD 2021 YN GYWIR.

Ni chafwyd ymateb gan Cyng W R Parry, J Evans, E D Owen, D T Roberts.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Cais llawn ar gyfer codi dau annedd preswyl ynghyd a chreu mynediad newydd ar dir yn:-
   Maes Meillion, Bodffordd. (Copi wedi ei gylchredeg i`r Cynghorwyr cyn y Rhaglen. Rhan fwyaf wedi ymdrechu i ymateb)
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng R M Roberts, eilio Cyng E Williams.

PENDERFYNIADAU.

2. HHP/2021/286. Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu:-
   Llwyn Onn, Tynlon.
   Caniatad.
   Ar ol edrych i fewn nid oedd y cyngor wedi cael y Cynllun gwreiddiol (Er na ella fuasai gwrthwynebiad.)
   Y Clerc wedi cysylltu a`r Adran Cynllunio o`r Cyngor Sir.:-
   Dyma`r ymateb>>
   David Craig Parr-Sturgess. Cynorthwy-ydd Cynllunio.
   Yn dilyn adolygu`r ceisiadau ymgynghori a anfonwyd allan, gallaf gadarnhau na chafodd cais ymgynghori ei anfon allan at y Cynogr Cymdeithas. R`wyf yn ymddiheuro am y camgymeriad hwn.
   Atodi ei adroddiad wedi`i ddiprwyo ay`n egluro rhesymau dros ganiatau addasiadau ac estyniadau yn Llwyn Onn, Tynlon. Sicrhad bod yr holl geisiadau ymgynghori ar gyfer ceisiadau yn eich Cymunedau yn cael ei hanfon atoch yn y dyfodol. Unrhyw Gwestiynau cynllunio@ynysmon.gov.uk
   Ni all y Cyngor wneud dim, diolch nad oedd gwrthwynebiad. Derbyn a bod yn wyliadwrus.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Adran Priffyrdd a Thrafniadiaeth. Huw Percy.
   Arwyddion 20mya. Ysgol Bodffordd.
   Mae arwyddion cynghorol 20mya wedi cael ei osod tu allan i bob ysgol gan ddefnyddio grant Llywodraeth Cymru. Bwriad Llywodraeth Cymru ydyw newid deddfwriaeth i wneud ardaloedd 30mya yng Nghymru yn 20mya ymhen dasu naw mis.
   Cyngor Mon wedi gofyn i`r Llywodraeth am fanylion i`w rhannu gyda Cynghorwyr a Chynghorau

Cymuned.
Mae grwp llywio Ynys Mon wedi cytuno y safleoedd Ysgolion a thri treial arall ac wedyn na fydd y Cyngor yn cyflwyno dim ardaloedd 20mya pellach tan fydd y ddeddfwriaeth newydd mewn lle. Hyderaf fod hyn yn egluro'r sefyllfa ac ymddiheuraf nad wyf wedi gallu rhoi sylw personnol i bob gohebiaeth sydd yn cael ei dderbyn gan y gwasanaeth.

Diolch am yr ymateb. Ond nid yw'r ohebiaeth hon yn ateb y broblem a nodwyd gan Lywodraethwyr Ysgol Bodffordd. Gofyn maen't am ychwanegiad i'r 20mya gan nad yw'r cerbydau yn arafu ac yn cymryd sylw o'r arwyddion. Y Clerc am gysylltu a Mr Huw Percy.

GOHEBIAETH (ARALL)

4. Llywodraeth Cymru.
Cadwch Cymru'n Daclus. Caru Cymru.
Mae 9 o bob 10 o berchnogion cwn yn codi baw eu ci. Bagiwch.Biniwch.
Gadewch olion pawennau yn unig gall baw cwn niweidio pobl ac anifeiliaid anwes. Bagiwch. Biniwch.
Derbyn y wybodaeth a'i gadw mewn cof.

5. Valley Wings. Cylchgrawn Lly Awyr Fali. Derbyn.

RHODDION

6. Dim.

PLWYFOL.

7. Cyfraniad Pwyllgor Cae Chwarae Bodffordd.
Cynnig Cyng R M Roberts i rhoi swm o £2,000 gyda Cyng H G Owen yn eilio. (Dim amod)
Dim unrhyw wrthwynebiad. (Ni chafwyd cais am arian gan pwyllgor y Cae Chwarae)

8. Torri Glaswellt Mynwent Gymunedol.
Dal i ddisgwyl am amcangyfrif i law. Dim ond un dilys wedi dod.
Un arall wedi rhoi ffigur dros ffon. Wedi gofyn iddo ei rhoi ar ddu a gwyn.
Agenda mis Ionawr 2022.

9. Cyfarfod wyneb yn wyneb.
Hefo'r Covid yn dal i fod efallai y beth gorau i'w wneud fuasai disgwyl hyd y gwanwyn.

10. Cafwyd cwynion am y canlynol:-
Y Clerc i weithredu. Nid oes unrhyw gynllun wedi dod i'r Cyngor.
Coedmor, Tynlon. Garej Dwbl arall yn cael ei adeiladu.
Rhyd Fawr, Trefor. Hyd a lled agoriad newydd wedi ei gwblhau. Cerrig mawr wedi ei paentio yn wyn a bolards ar y ffin glaswellt. Mae yn tynnu llygaid y tramwy pan yn mynd heibio.
Rhyd Caradog, Llandrygarn. Perchennog newydd. Llawer o newidiadau yn cymryd lle.

MATERION ARIANNOL:

11. Cyfrif Rhedegol £9,820.00
Mynwent Gymunedol £5,890.00. £400.00. (Agor Bedd Carol Jane Jones)

TALIADAU:

12. Clerc £250.00. Treth Incwm 3. £187.50. Gweinyddu (3mis) £167.77.

Er nas oes cyfarfod wyneb yn wyneb yn bodoli mae yn rhaid dan rheol dalu y dyledion i gyd.